# DEDDF LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2015

## Cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 16 i 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac unrhyw gymdeithas yr ymddengys iddynt ei bod yn cynrychioli awdurdodau lleol, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw'r Cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru 2016.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym drannoeth y dyddiad y'u gwneir.

### Dehongli

**2.** Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "adolygiadau cychwynnol" ("*initial reviews*") yw'r adolygiadau y mae paragraff 3 yn cyfeirio atynt;

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; ac

mae "nodweddion penodol ardal" ("*particular characteristics of an area*") yn cynnwys dwysedd ei phoblogaeth, y cymysgedd o gymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith oddi mewn iddi, ei daearyddiaeth a'r lefelau tlodi oddi mewn iddi.

### Adolygiadau cychwynnol

**3.** Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o'r prif ardaloedd arfaethedig a ganlyn(**2**), a ddisgrifir gan gyfeirio at y prif ardaloedd presennol sydd oddi mewn

---

(**1**) [*The statute number will be inserted once the Bill receives Royal Assent*].

(**2**) Mae'r cynigion a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 17 Mehefin 2015 yn cynnwys dau opsiwn ar gyfer rhanbarth y Gogledd, sy'n arwain at naill ai ddwy neu dair brif ardal arfaethedig.

iddynt, sef y cynigion a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 17 Mehefin 2015(**1**).

(1) —

(a) Siroedd Ynys Môn a Gwynedd, a bwrdeistref sirol Conwy;

(b) Siroedd Dinbych a'r Fflint, a bwrdeistref sirol Wrecsam;

(2) —

(a) Siroedd Ynys Môn a Gwynedd;

(b) Bwrdeistref sirol Conwy, a Sir Ddinbych;

(c) Sir y Fflint, a bwrdeistref sirol Wrecsam;

(3) —

(a) Siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin;

(b) Sir Abertawe, a bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot;

(c) Bwrdeistrefi sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful;

(d) Bwrdeistrefi sirol Caerdydd a Bro Morgannwg; ac

(e) Sir Fynwy a bwrdeistrefi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen a Chasnewydd.

**Dyddiad yr adroddiad**

**4.** Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn—

(a) i wneud adroddiad sy'n cynnwys argymhellion gan y Comisiwn mewn perthynas â phob adolygiad cychwynnol y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud ag ef, a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru, erbyn 31 Gorffennaf 2018; a

(b) i gyhoeddi amserlen ar gyfer rhaglen yr adolygiadau hynny o fewn y cyfnod o ddau fis wedi i'r Cyfarwyddydau hyn ddod i rym.

**Cyfarwyddydau cyffredinol**

**5.** Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Comisiwn i roi sylw i—

(a) nodweddion penodol ardal ac i ba raddau y dylai'r nodweddion hynny ddylanwadu ar faint y ward a nifer yr etholwyr oddi mewn iddi;

(b) yr egwyddorion a ganlyn—

(i) dylid grwpio wardiau etholiadol presennol ynghyd mewn grwpiau o ddwy

(**1**)llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2015/lgfuture/?lang=cy.

ward neu fwy er mwyn creu wardiau etholiadol arfaethedig;

(ii) dylid argymell enw Cymraeg ar gyfer pob ward etholiadol a, phan nad oes enw Cymraeg a gydnabyddir yn gyffredinol ar gyfer ward etholiadol, dylid argymell enw Saesneg cyfatebol;

(iii) ni ddylai nifer y cynghorwyr ar gyfer prif ardal arfaethedig fod yn llai na'r nifer a gynhyrchir gan gymhareb cynghorydd i etholwr o 1:4000; a

(iv) ni ddylai nifer y cynghorwyr ar gyfer prif ardal arfaethedig benodol fod yn llai na nifer y cynghorwyr ar gyfer prif ardal arfaethedig arall sydd â llai o etholwyr.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad